10. Y Gweira

Llantrisant, Rhondda Cynon Taff

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 151 yr A.O. Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr. Prif fynedfa: ST051850; Canolfan y safle: ST052849
Statws	Mae'r safle'n rhan o SoDdGA Comin a Phorfeydd Llantrisant. Mae gorchymyn gwarchod coed wedi'i osod ar y safle.
Daliadaeth	Prynwyd y warchodfa fis Mehefin 2001 gyda chymorth grant gan CCGC.
Maint	6.5 he (16 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	Saif Y Gweria yng nghornel ogledd ddwyreiniol Comin Llantrisant, i'r de o Heol Castellau. Gorwedd y comin i'r gorllewin o bentref Beddau ac 1km i'r gogledd o Lantrisant. Nid oes modd defnyddio cadeiriau olwyn ar y safle.
Cludiant cyhoeddus	Bws rhif 244 o Ben-y-bont ar Ogwr neu 400 o Gaerdydd i Lantrisant neu Feddau.

Disgrifiad: Glaswelltir corsiog a rhostir gwlyb ar dir isel.
Mae'r borfa'n cynnwys mosaig o rostir gwlyb, cors a glaswelltir corsiog [NVC: M15, M24, M25], yn llawn Gwellt y Gweunydd. Mae digonedd o Dresgl (6-9) yn y glaswellt yma, ynghyd â rhywogaethau fel Peiswellt y Defaid, Cawn Duon a Brwyn Troellgorun. Mae hefyd yn gartref i boblogaeth fawr, gref o eithin (5-6). Gellir adnabod y rhostir gwlyb drwy edrych am bresenoldeb y Grug Croesddail (7-8) a'r Grug (8-9)

Gellir adnabod y mannau achlysurol ble mae'r pridd ychydig yn llai asidig drwy sylwi ar bresenoldeb Ysgall y Ddôl (6-7). Mae Rhedyn Brenhinol wedi'i ddarganfod mewn dwy ardal sy'n gysylltiedig â ffosydd ar y safle.

Mae'r cynefin agored hwn yn gartref i Gorhedydd y Waun, sy'n magu, a'r Ehedydd. Ceir yma hefyd amrywiaeth o infertebrata, yn cynnwys glöynnod byw – Brith y Gors (5-6) yn y dyfodol agos gobeithio - a gweision y neidr fel y Gwibiwr Cyffredin (6-9)



Nodau Rheoli: Pori ysgafn gan wartheg, neu bori cymysg, i gynnal y mosaig o rostir a glaswelltir ac atal olyniaeth y coetir gwlyb.

Amser da i ymweld	
Ebrill - Gorffennaf	Adar yn magu
Ebrill – Medi	Glöynnod byw, gweision y neidr ac infertebrata eraill
Mai – Medi	Blodau'r glaswelltir a'r rhostir